Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Gwasanaeth Nam ar y Golwg Ceredigion

**Mae'r Gwasanaeth Nam ar y Golwg ar gael i asesu pobl sydd wedi colli eu golwg yn ddifrifol ac nid yw'n bosib ei gywiro trwy wisgo sbectol.**
**Os oes gennych nam ar eich golwg sy'n effeithio ar eich bywyd o ddydd i ddydd, gall Gofal Cymdeithasol roi asesiad o'ch anghenion a gweithio gyda chi, gan eich helpu i fod mor annibynnol â phosibl. Efallai y byddwn yn gallu cynnig y gwasanaethau canlynol yn dibynnu ar eich anghenion a aseswyd:**

### Swyddog Adsefydlu

– mae hwn/hon wedi cael hyfforddiant arbennig ym maes nam synhwyraidd ac mae'n gweithio gyda phobl o bob oedran sy'n dioddef problemau gyda'u golwg. Mae'n cynnal asesiadau arbenigol ac yn darparu gwybodaeth, cyngor ac adsefydlu i bobl sydd wedi colli eu golwg

### Hyfforddiant Symudedd

– gallwn ddarparu hyfforddiant i chi i'ch helpu i symud o gwmpas yn fwy diogel ac yn fwy annibynnol, y tu mewn ac yn yr awyr agored

### Cymhorthion Golwg Gwael

– gellir rhoi cyngor i chi ar gymhorthion sydd ar gael i'w prynu fel chwyddwydrau a setiau teledu cylch cyfyng ar gyfer darllen ac ati. Efallai y bydd y gweithiwr yn gallu
dangos rhywfaint o offer gyda chi cyn prynu

### Hyfforddiant a Chymhorthion Cyfathrebu

– gallwn eich helpu i ymestyn eich sgiliau cyfathrebu
presennol a rhoi cyngor am gymhorthion fel ffonau sy'n cynnwys botymau mawr a phennau ysgrifennu sy'n amlwg i'w gweld

### Llyfrau a Phapurau Newydd Llafar

– gallwn drefnu bod y rhain yn cael eu dosbarthu i chi

### Benthyca Offer

– gellir benthyca rhai eitemau o offer am ddim. Mae angen bodloni meini prawf cymhwysedd er mwyn cael gafael ar yr offer hwn - gall y gweithiwr drafod hyn gyda chi yn ystod yr asesiad

### Budd-daliadau Ariannol

– gallwn roi cyngor i chi am fudd-daliadau perthnasol hefyd a sut i wneud cais amdanynt. Mae gan R.N.I.B. (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall) linell gymorth
genedlaethol hefyd a all ddarparu cyngor - Ffôn 0303 1239999

**Cofrestru rhywun sydd â Nam ar ei Golwg neu nam difrifol ar ei Golwg** gyda'r awdurdod lleol unwaith y bydd yr ymgynghorydd offthalmig wedi eich ardystio felly. Os nad ydych wedi cael eich cofrestru neu eich ardystio fel rhywun sydd â nam ar y golwg neu â nam difrifol ar y golwg, ond rydych chi'n poeni am eich golwg, dylech drafod hyn gyda'ch Arbenigwr Llygad neu Feddyg Teulu

**CLIC – 01545 574000**
**contactsocservs@ceredigion.gov.uk**

# Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa

**Mae gennym hefyd ystafell yng Nghanolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa yn Aberaeron. Man pwrpasol i ddarparu gwybodaeth am fyw gyda nam ar y golwg. Mae amrywiaeth o offer a Thechnoleg ar gael i'w gweld ac i'w profi.**






Ar lawr gwaelod swyddfeydd y Cyngor Sir ym Penmorfa,
Aberaeron. SA46 0PA
Agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 10:30 -15:30

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council